

Cyngor Cymuned Llandwrog – Adroddiad Blynyddol 2020-21



Gair gan y Cadeirydd

- ▶ **Cynghorydd Alun Wyn Jones – Cadeirydd y Cyngor 2020-21 .**
- ▶ Dyma adroddiad gan y Cyngor am ei weinyddiaeth, ei weithredoedd a'i gynlluniau yn ystod blwyddyn ag amgylchiadau difrifol Cofid-19 oedd yn eithriadol a phellgyrhaeddol. Blwyddyn anghyffredin, a dweud y lleiaf.
- ▶ Aeth y Cyngor ati i dorri tir newydd yn 2020-21 wrth droi at gyfarfodydd rhithiol gyda'r holl aelodau yn defnyddio cyfrifiaduron tabled. Hefyd, bu cychwyn ar brosiect arwyddocaol ym maes cyfathrebu parthed sefydlu gwefannau cymdeithasol.
- ▶ Nid yn unig fod y Cyngor wedi llwyddo i gynnal ei weithgareddau arferol yn 2020-21, er gwaethaf y firws, ond rhoddodd sylw i gyflawni datblygiadau pwysig i foderneiddio gweithdrefnau.

Cyllideb y Cyngor 2020-21

Incwm o'r Praesept **£64,000** (£55,000) yn 2019-20

Incwm Ffioedd **£4,374** (£7,608) yn 2019-20

Gwariant **£60,361** £60,948 yn 2019-20

Balansau yn cario drosodd i 1af Ebrill 2021 (**£19,263**)
(£11,006) ar 1af Ebrill 2020

Cronfeydd Y Cyngor 31 Mawrth 2021 –

Cronfa Wrth Gefn (**£5,000**) (£3,500) 31/3/2020


Cronfeydd Eraill (**£9,500**) (£2,000) 31/3/2020

Cronfeydd wedi ei clustnodi i'w wario yn 2021-22 (**£4,519**) (£4,825)
31/3/2020


Dyled y Cyngor ar 31 Mawrth 2021 **£119,561** £126,200 ar 31 Mawrth

2020 (Tri benthyciad tymor hir: 1. Prynu tir ym Mrynrodyn yn 1996 am £15,500, 2. Gwaith llwybrau mynwentydd yn 2006 £65,000, a 3. Datblygu Fynwent Newydd Bryn' rodyn yn 2014 a gostiodd £100,000.

Gwariant y Cyngor 2020-21



Incwm y Cyngor 2020-21



Gwaith eich Cyngor am y flwyddyn 2020-21

Pwnc

- 1) Rheoli Eiddo'r Cyngor a Thiroedd Eraill
- 2) Gweinyddiaeth a Llywodraethiant
- 3) Rhoddion Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol
- 4) Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionnydd 2023
- 5) Cynrychioli eich Cymuned
- 6) Partneriaethu a Chyd Weithio
- 7) Ymgysylltu Gyda'r Gymuned
- 8) Ceisiadau Cynllunio
- 9) Gwella Ein Pentrefi a Cefnogi ein Cymuned
- 10) Covid 19
- 11) Effaith Twristiaeth a'r Farchnad Dai

1 Rheoli Eiddo'r Cyngor



- ▶ Cyflawnwyd rhaglen waith gynhwysfawr ym mynwentydd y plwyf sef mynwentydd Llandwrog, Carmel a Bryn'rodyn i wella edrychiad.
- ▶ Gosodwyd diffribiliwr yng nghaban ffôn Dinas Dinlle.
- ▶ Penderfynwyd newid trefniadau casglu gwastraff yn y mynwentydd trwy brynu gwasaneth biniau gwyrdd a brown gan Cyngor Gwynedd o 1 Ebrill 2021.
- ▶ Cynhaliwyd arbrofion iechyd a diogelwch ar gyflwr cerrig beddi ym mynwent Carmel.
- ▶ Cafwyd trafodaethau cychwynnol gyda Chyngor Gwynedd i adnabod tiroedd sydd angen eu torri yn ein pentrefi.
- ▶ Caban ffôn Y Cilgwyn (sydd yn berchen i'r Cyngor) wedi cael ei beintio
- ▶ Prynwyd 15 tabled TGCh i pob aelod i'r pwrpas o symud i fod yn Gyngor ddi-bapur ac i arbed costau gweinyddiaeth

2 Gweinyddiaeth a Llywodraethiant

Croesawyd dau aelod newydd , un i Ward Carmel ac un i Ward Y Groeslon

Cynhaliwyd cyfarfodydd y Cyngor dros fidio (cyfarfodydd rhithiol) trwy gydol y flwyddyn

Lansiwyd gwefan newydd Y Cyngor ac mae gwaith wedi cychwyn i ddatblygu logo newydd

Buddsoddwyd mewn offer TG fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i fod yn yn Gyngor ddi-bapur

Sefydlwyd trefniadau e-bost newydd gyda phob aelod o'r Cyngor yn derbyn cyfeiriad e-bost y Cyngor

Mabwysiadwyd Polisi Defnydd TGCh i aelodau a staff y Cyngor

Mabwysiadwyd Dogfen Asesiad Risg Blyneddol



3 Rhoddion i Fudiadau Gwirfoddol


Talwyd cyfanswm o **£5,550** i **15** mudiad yn amrywio o £100 i £1,000

Dosbarthwyd cyfanswm o **£1,300** yn 2020-21 i Bwyllgorau a Chyfeillion Pentrefi i gefnogi trigolion bregus ein cymuned yn ystod y **cyfnod clo**.

Dosbarthwyd pecynnau bwyd i drigolion Dinas Dinlle, Y Groeslon, Llandwrog a Charmel tra sefydlwyd man casglu yng Nghanolfan Y Fron



AMBIWLANS AWYR CYMRU
WALES AIR AMBULANCE



4 Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023

- ▶ Derbyniwyd gohebiaeth gan Swyddfa'r Eisteddfod yn cadarnhau y bwriad i gynnal yr Eisteddfod yn 2023 gan fod Eisteddfod 2020 wedi ei gohirio
- ▶ Bydd targed Swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol i'n cymuned gyfrannu swm o **£5,000** fel rhan o darged ehangach o £400,000 yn parhau.
- ▶ Bydd angen ail sefydlu y gwaith wnethpwyd gan y Cyngor Cymuned cyn y cyfnod clo i'r pentrefi sefydlu pwyllgor neu bwyllgorau fyddai'n annibynol o'r Cyngor i drefnu gweithgareddau i godi'r arian.
- ▶ Disgwylid Swyddfa'r Eisteddfod ydi fod pob cymuned yn creu awyrgylch o fwrlwm a digwyddiadau am gyfnod o ddeunaw mis fydd yn codi ymwybyddiaeth pawb yn ein cymuned fod yr Eisteddfod yn dod i'r ardal



5 Cynrychioli Eich Cymuned

*Mae aelodau y Cyngor
a'r Rheolwr yn
cynrychioli y gymuned
ar y Grwpiau canlynol.
Ni chynhaliodd pob
grwp gyfarfodydd yn
2020-21 oherwydd y
pandemig.*

- ▶ Grŵp Cyswllt Chwareli Moel Tryfan ac Alexandra
- ▶ Grŵp Delwedd Dyffryn Nantlle
- ▶ Ysgol Bro Llifon
- ▶ Prosiect Partneriaeth Glynllifon.
- ▶ Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru
- ▶ Gwefan Bro 360

6 Partneriaethu a Cyd-weithio

Parhau y bartneriaeth gyda Cyngor Gwynedd ar gyfer llenwi biniau halen y gymuned

Parhau i fod mewn partneriaeth gyda Cyngor Gwynedd i gadw toiled y Marine, Dinas Dinlle ar agor. Wedi ymrwmo i'r bartneriaeth tan 31 Mawrth 2022.

Parhau i gydweithio gyda Plwyf Eglwys Llanwnda a Llandwrog i dorri gwair mynwent Eglwys Sant Tomos, Y Groeslon

Cydweithio gyda Swyddog Parc Cenedlaethol Eryri ar Brosiect Uwch Gwyrfa i sicrhau gwaith atal tan ar y comin, i agor ffynhonnau a chefnogi y gwaith ar llwybr rhif 37 Ffynnon Dwr Oer, Carmel

Yn aelod o Brosiect Partneriaeth Glynllifon

Yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru ar Strategaeth Dinas Dinlle



7 Ymgysylltu Gyda'r Gymuned



O Ebrill 2021 bydd y Cyngor yn ymgysylltu trwy sefydlu gwefannau cymdeithasol yn benodol "Facebook" a "Twitter". Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gael gwell cysylltiad yndilyn adborth o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda holl drigolion y gymuned nol yn 2019



Lansiwyd gwefan newydd, fodern –
www.cyngorcymunedllandwrog.cymru

cwmni
CELyn

Ymgynghoriaeth Reol - Hyfforddiant - Cefnogaeth Busnes
Management Consultancy - Training - Business Support

Delwedd
websites that work
gwefannau sy'n gweithio

delwedd.co.uk | post@delwedd.co.uk | 01286 685 227

8 Cynllunio



- ▶ Nifer ceisiadau cynllunio y gwnaed sylwadau arnynt yn y cyfnod

▶ **25**



9 Gwaith yn Ein Pentrefi..... engreiffitiau o'r gwaith wnaed gan eich Cyngor yn ystod y flwyddyn



photo © D Sallery



- ▶ Dosbarthu grantiau i pobol bregus y gymuned yn ystod y cyfnod clo
- ▶ Gwaith cynnal a thacluso mynwentydd Carmel, Bryn'rodyn a Llandwrog.
- ▶ Llwyddo i berswadio Cyngor Gwynedd i wneud gwaith ar Domen Shibi a monitro trafnidiaeth sydd yn cario deunydd o Chwareli Blaen Fferam ac Alexandra.
- ▶ Pwyso ar Gomisiwn y Goron i atal ffensio angyfreithlon a gwaredu cerbydau o'r tir comin.
- ▶ Cynnal cyfarfodydd gyda Chngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru am Strategaeth ar gyfer Dinad Dinlle – yn arbennig pryderon am ddyfodol y ffordd gyhoeddus at y Morfa,
- ▶ Lansio gwefan newydd , modern i ledaennu gwybodaeth am waith y Cyngor
- ▶ Gosod diffribiliwr yn Ninas Dinlle
- ▶ Gwella delwedd ein pentrefi trwy gyfres o waith megis Clwt Foty Carmel a thir ger Ysgol Bro Llifon
- ▶ Cydweithio gyda Chyngor Gwynedd i gynnig gwelliannau i safleoedd bws sgwar Y Groeslon a lloches bws Y Fron
- ▶ Cydweithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ar y prosiect Cysylltu Comin a Phrosiect Uwchgwyrfai
- ▶ Pwyso ar Gyngor Gwynedd i wneud gwaith ar lonydd y gymuned.
- ▶ Cynnal pedair mynwent, dau gae pêl-droed a deg lloches bws
- ▶ Cynnal y rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus yn y gymuned


10 Twristaieth a'r Farchnad Dai

- ▶ Cefnogwyd cais gan Gyngor Llanllyfni yn galw ar Gyngor Gwynedd alw ar randeiliaid i drafod sut mae modd codi tal ac elwa llawer mwy ar ddefnyddwyr yr Wyddfa.
- ▶ Cefnogwyd cynnig Cyngor Tref Nefyn i reoli tai gwylliau tymor byr, gostwng prisiau tai fforddiadwy a newid deddfwriaeth parthed premiwm treth Cyngor.
- ▶ Yn partneriaethu gyda Chyngor Gwynedd ac yn cyfrannu £4,000 i gadw toiled y Marine, Dinas Dinlle ar agor.
- ▶ Yn monitro a gohebu gydag Adran Morwrol Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru ynglyn a chyflwr llwybr y traeth Dinas Dinlle.



11 Covid 19

- ▶ Cynhaliwyd pob cyfarfod o'r Cyngor trwy fidio. Prynwyd trwydded "Zoom"
- ▶ Dosbarthwyd grantiau i Ganolfan Y Fron, Cyfeillion a Phwyllgorau Pentrefi Carmel, Y Groeslon, Llandwrog a Dinas Dinlle i gefnogi pobol bregus y gymuned ar gychwyn y cyfnod clo
- ▶ Anfonwyd gohebiaeth i'r Awdurdod Iechyd ynglyn a phroblemau a welwyd ym Meddygfa Corwen House gyda phobl bregus yn sefyll yn y glaw i ddisgwyl am brescripsiwn
- ▶ Cydymffurfiwyd a rheolau y Llywodraeth parthed y defnydd o diroedd y Cyngor yn ystod y cyfnod clo



Rhaglen Waith 2021-22



- ▶ Gwaith adfer llwybrau ym mynwentydd Bryn'rodyn a Llandwrog
- ▶ Agor rhan newydd o mynwent Bryn'rodyn
- ▶ Cydweithio gydag Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd i wella y gwasaneth torri gwair yn y pentrefi
- ▶ Barahu i bwysio ar Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd I gynnal lonydd y gymuned a threfniadau llinellau melyn yn Y Groeslon
- ▶ Adnabod lleoliad a chyllid i osod lloches bws yn Ninas Dinlle gwaith ar loches bws Y Fron
- ▶ Gohebu trwy'r cyfryngau cymdeithasol a datbygu'r gwefan
- ▶ Cynnal arolwg o holl lwybrau cyhoeddus y gymuned i adnabod unrhyw waith sydd ei angen i'w cadw yn agored
- ▶ Adnabod safleoedd yn y gymuned i hybu bioamrywiaeth yn unol a Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (mae'n ddyletswydd ar bob Cyngor Tref a Chymuned i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau)
- ▶ Parhau i adnabod gofynion y gymuned trwy broses ymgysylltu
- ▶ Llywio'r Cyngor trwy newidiadu fydd yn digwydd i drefniadau y Cyngor Cymuned yn dilyn cyhoeddiad LIC Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau
- ▶ Mapio safleoedd claddu y tair mynwent cymunedol yn electroneg
- ▶ Parhau i bwyso ar Cyngor Gwynedd i wrthdroi ei benderfyniad i godi ffi am barcio yn Dinas Dinlle
- ▶ Parhau i bwyso ar Gyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni gwaith ar lwybr troed yn Ninas Dinlle, ynghyd a gwella cyflwr ein ffyrdd
- ▶ Rhoi cymorth i unrhyw bwyllgorau i gyrraedd targed y gymuned o £5,000 fel cyfranai at Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023

Cyfarfodydd y Cyngor 2020-21

- ▶ Nifer Cyngor Llawn **17**
- ▶ Nifer Cyfarfodydd Pwyllgorau **11**
- ▶ Nifer Cyfarfodydd Eraill **2**
- ▶ Nifer y cwynion a dderbyniwyd **dim**
- ▶ Aelodau Newydd yn y cyfnod **2**
- ▶ Ymddiswyddiadau yn y Cyfnod **1**
- ▶ Nifer aelodau wnaeth hawlio y lwfans blynyddol o £150 **dim**



Eich Cynrychiolwyr – Ward Carmel

nifer seddau **3**

- ▶ **Cynghorydd Alan Patterson** Bryn Llifon, Carmel, Caernarfon, Gwynedd LL54 7RW Rhif ffôn 01286 881843 neu 07989 906704 **Yn aelod ers Hydref 1995**
alanpatterson@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Bryn Williams** Dafarn Dywyrch, Llandwrog Uchaf, Caernarfon, Gwynedd LL54 7RA Rhif ffôn 01286 831378 neu 07583 517852. **Yn aelod ers Ebrill 1997**
brynwilliams@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd. Alun Parrington** 9 Carmel Terrace, Carmel Caernarfon, Gwynedd LL54 7RP Rhif ffôn 07833 252689 **Yn aelod ers Ionawr 2021**
alunparrington@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Fron

nifer seddau **2**

- ▶ **Cynghorydd Gwyn Owen Jones** Bodwyn, Y Fron, Caernarfon, Gwynedd LL54 7RB Rhif ffôn 01286 881138 neu 07903 333260. **Yn aelod ers Chwefror 1997**
wynowenjones@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Rhys Vaughan Thomas**, Gwynfa, Rhos Isaf, Caernarfon, Gwynedd LL54 7NN Rhif ffôn 07765 055224 **Yn aelod ers ei gyf-ethol Chwefror 2020**
rhysvaughanthomas@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Groeslon – nifer seddau 6

- ▶ **Cynghorydd Alun Wyn Jones** Hafan, Rhes Grugan, Y Groeslon Caernarfon, Gwynedd LL54 7TD Rhif ffôn 01286 830911 **Yn aelod ers Ionawr 1986**
alunwynjones@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Hywel John Owen** Sycharth, Cae Sarn, Y Groeslon Caernarfon, Gwynedd LL54 7TW Rhif ffôn 01286 830006 neu 07979 985149 **Yn aelod ers Medi 1983.**
hywelowen@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Gerwyn Owen** 4 Cae Sarn, Y Groeslon Caernarfon, Gwynedd LL54 7TW Rhif ffôn 07918 716344 **Yn aelod ers Hydref 2014**
gerwynowen@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd David C Davies** Bodarfryn, Dolydd, Y Groeslon Caernarfon, Gwynedd LL54 7EF 07836 325195 **Yn aelod ers Mehefin 2017**
davidcdavies@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Groeslon

- ▶ **Cynghorydd Heulwen Jones-Griffiths** Penbrynrhos, Y Groeslon
Bryn y Neuadd, Y Groeslon Caernarfon, Gwynedd LL54 7DL Rhif
ffôn 07788 570106 **Yn aelod ers Chwefror 2021**
heulwenjonesgriffiths@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Eddie John Willcox** Noddfa, Y Fron Caernarfon,
Gwynedd LL54 7BB Rhif ffôn 07919 914483 **Yn aelod ers Mai**
2017 **eddiwillcox@cyngorcymunedllandwrog.cymru**

Eich Cynrychiolwyr – Ward

Llandwrog/Dinas Dinlle nifer seddau **3**

- ▶ **Cynghorydd Clive Bayley** Ty Clen, 1 Gernant, Bethesda Bach
Caernarfon, Gwynedd LL54 5SJ Rhif ffôn 07967 794002 **Yn aelod ers
Mehefin 2017**
clivebayley@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Dyfed Williams** Bwthyn Henryd. Llandwrog
Caernarfon, Gwynedd LL54 5TN Rhif ffôn 01286 831290 neu 07772
819189 **Yn aelod ers Mai 2012**
dyfedwilliams@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Marnel Pritchard** Llain yr Eglwys, Llandwrog
Caernarfon, Gwynedd LL54 5TA Rhif ffôn 01286 830993 **Yn aelod ers
ei chyf-ethol yn Chwefror 2020**
marnelpritchard@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Cysylltu gyda eich Cyngor

Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor

- ▶ David Roberts, Bryn Meurig, Carmel , Caernarfon
Gwynedd LL54 7DS

- ▶ Rhif Ffôn **01286 881920** neu **07796 024288**

- ▶ E-bost [**rheolwr@cyngorcymunedllandwrog.cymru**](mailto:rheolwr@cyngorcymunedllandwrog.cymru)

- ▶ Gwefan y Cyngor

www.cyngorcymunedllandwrog.cymru

- ▶ Oriau Busnes y Cyngor – cytundeb **rhan amser** sydd gan y Rheolwr ond gellir cysylltu gyda ef naill a'i trwy e-bost, dros y ffôn, llythyru neu gartref unrhyw adeg. Cofiwch y gellir cysylltu gyda eich Cynghorwyr Cymuned ac hefyd eich Cynghorydd Sirol





Eich Cynghorwyr Sir

► Cynghorydd Eric M Jones

Afallon, Groeslon, Caernarfon, Gwynedd,
LL54 7TU

Ffôn: 01286 830626

Ffôn Symudol: 07469 215011

**represents the Groeslon, Llandwrog a Dinas
Dinlle Ward**

ebost ericmerfynjones@gwynedd.llyw.cymru

► Cynghorydd Dilwyn Ifor Lloyd

Eryri House, Carmel, Caernarfon, Gwynedd,
LL54 7AB

Ffôn 01286 882149

yn cynrychioli Ward Y Fron a Carmel

ebost Dilwynlloyd3@btinternet.com

